


BLWYDDLYFR  
Y GYMRAEG  
2020/21  
WELSH LANGUAGE  
YEARBOOK



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board

Meddwl **Cymraeg**  
Think **Welsh**



“Mae'r Gymraeg yn un o'r ieithoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y byd, ac fel sefydliad sy'n gweithredu yng nghalon prifddinas Cymru, mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud popeth o fewn ei allu i gofleidio a dathlu'r iaith. “Trwy fabwysiadu'r dull rhagweithiol newydd hwn, ochr yn ochr â lansiad diweddar ein hymgyrch Meddwl Cymraeg - Think Welsh, gallwn hyrwyddo'r Gymraeg yma ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, a gweithio tuag at fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.”



## Neges gan...

Croeso i Flwyddlyfr y Gymraeg cyntaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n canolbwyntio ar y gweithgareddau a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf i hybu'r Gymraeg o fewn ein sefydliad.

Rydym yn falch o fod yn un o'r sefydliadau mwyaf sy'n gweithredu yng nghanol prifddinas y genedl a'r cyffiniau. Mae'n rhoi cyfrifoldeb arnom i ddathlu a hyrwyddo treftadaeth a diwylliant y genedl, yn ogystal â'i hiaith.

Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol yn wyneb heriau gweithredol sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Er gwaethaf pwysau pandemig COVID-19, rydym wedi cynyddu ein hymdrechion i feithrin diwylliant gwirioneddol ddwyieithog ar draws ein sefydliad a gwneud gwelliannau i fodloni ein dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg. Yr elfen allweddol sydd wedi galluogi hyn yw'r gweithgareddau amrywiol a gyflawnwyd yn rhan o'r ymgyrch Meddwl Cymraeg – Think Welsh newydd a lanswyd ar Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr, sy'n annog aelodau staff i roi'r Gymraeg ar flaen eu meddwl wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae nifer o heriau i'w hwynebu a'u goresgyn o hyd. O dan arweiniad ein Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb a Safonau'r Iaith Gymraeg, ac wrth ganolbwyntio ar yr effaith wirioneddol y gall cael mynediad at ein gwasanaethau yn Gymraeg ei gael ar gleifion, rydym yn hyderus ac yn benderfynol o lwyddo.



**Len Richards**  
**Prif Weithredwr**



**Charles Janczewski**  
**Cadeirydd**

# Staff y Bwrdd Iechyd yn cael eu hannog i Feddwl yn Gymraeg - Think Welsh...

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi lansio ymgyrch newydd i annog y defnydd o'r Gymraeg ac i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru.

Bydd ymgyrch Meddwl Cymraeg – Think Welsh yn annog gweithwyr y Bwrdd Iechyd i feddwl yn weithredol am y Gymraeg, ac ystyried sut y gallent gyfrannu at wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch i siaradwyr Cymraeg.

Mae'r ymgyrch, sy'n cael ei lansio ar Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg, yn cydnabod hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn bwriadu ei gwneud hi'n haws i gleifion a staff y Bwrdd Iechyd wneud hynny.

Yn rhan o'r ymgyrch, bydd ystod o wybodaeth, adnoddau a gweithgareddau ar gael i staff dros y misoedd nesaf i'w hannog i gael yr hyder i siarad Cymraeg ar unrhyw lefel o ruglder, cefnogi staff di-Gymraeg i wella eu sgiliau, a helpu gwasanaethau i gynyddu eu defnydd o'r iaith.


**Meddwl  
Think  
Cymraeg  
Welsh**

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr: "Fel un o'r prif sefydliadau ym mhfrifdinas Caerdydd a'r cyffiniau, mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb i ddathlu a hyrwyddo treftadaeth a diwylliant y genedl, sy'n cynnwys y defnydd o'r Gymraeg.

"Trwy weithredu ymgyrch Meddwl Cymraeg – Think Welsh, rydym yn annog staff i feddwl am y Gymraeg yn barhaus ac ystyried ffyrdd y gallant ei hymgorffori yn eu rolau i gefnogi ein cleifion a'n cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg.

"Rydym wedi gweld sut y gall defnyddio'r ymadroddion mwyaf syml yn Gymraeg gael effaith sylweddol ar ofal cleifion, felly byddwn yn annog yr holl staff sydd hyd yn oed â'r sgiliau Cymraeg mwyaf sylfaenol i gael hyder i'w defnyddio.

"Gyda chefnogaeth lawn gan bawb i'r ymgyrch, rydw i'n hyderus y gallwn ni wir godi momentwm a chyflawni ein huchelgais o ddod yn sefydliad cwbl ddwyieithog, fel bod modd i bobl gael mynediad at unrhyw un o'n gwasanaethau yn Gymraeg."



# Murlun Ward y Gofod Newydd yn Serennu...

Mae murlun dwyieithog newydd wedi'i osod yn Ward y Gofod yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru i helpu annog cleifion sy'n siarad Cymraeg i deimlo'n gyfforddus i ddefnyddio eu dewis iaith ar y ward.

Lansiwyd y murlun ar thema'r gofod, a gefnogwyd gan y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles, Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro, ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Mae'r murlun, a ddyluniwyd gan ddefnyddio syniadau gan gleifion a staff o Ward y Gofod, yn cynnwys ymadroddion Cymraeg a lluniau o dirnodau poblogaidd yng Nghymru, megis yr Wyddfa, Castell Coch a Stadiwm Principality, i annog cleifion ifanc, eu teuluoedd a staff y Bwrdd Iechyd i deimlo'n falch o'n treftadaeth a chael mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn rhan o'r murlun, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno masgot newydd o'r enw Cadog, a fydd yn wyneb mwy a mwy cyfarwydd ledled y Bwrdd Iechyd i helpu i hyrwyddo'r Gymraeg.



Dywedodd Jessica Sharp, Swyddog y Gymraeg yn BIP Caerdydd a'r Fro: "Mae'n bwysig bod ein cleifion o bob oedran sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n gyfforddus i ddefnyddio ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith, felly rydw i'n falch iawn o'r murlun newydd hwn."

"Hoffwn ddiolch i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro am wneud y prosiect hwn yn bosibl, ac i gleifion a staff yn ysbyty'r plant am ddod â thaith Cadog drwy'r gofod yn fyw gyda'u syniadau gwych."



Mae'r murlun yn un cam bach sy'n rhan o nod y Bwrdd Iechyd i ddod yn sefydliad cwbl ddwyieithog. Mae'n rhan o'r ymgyrch Meddwl Cymraeg - Think Welsh, sy'n annog gweithwyr y Bwrdd Iechyd i roi'r Gymraeg ym mlaen eu meddwl, ac ystyried sut y gallant gyfrannu at wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch i siaradwyr Cymraeg.

Grosvenor Interiors oedd yn gyfrifol am ddylunio a gosod y murlun newydd, a chafwyd cefnogaeth gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.



**Meddwl Think Welsh**




# Pecyn Derbyn i Gleifion sy'n Siarad Cymraeg...

Mae Pecyn Derbyn Peilot ar gyfer Cleifion sy'n siarad Cymraeg wedi cael ei weithredu o fewn wardiau lechyd Meddwl, Pediatreg a'r Uned Gofal Dwys gyda'r nod o'i gyflwyno i'r holl wardiau ar draws y Bwrdd Iechyd yn dilyn cyfnod ymgynghori o chwe wythnos.

Nod y pecyn yw cynorthwyo staff wrth sefydlu p'un a yw claf mewnol yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty.

Dylid gofyn i gleifion beth yw eu hiaith ddewisol ar y diwrnod cyntaf ar ôl iddynt gael eu derbyn. Os yw claf yn cael trafferth yn cyfathrebu am unrhyw reswm, a cheir amheuaeth y gallai'r claf fod yn siaradwr Cymraeg, mae gweithdrefn i'w dilyn i sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chymorth y Language Line ac aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn yr adrannau.

Ar ôl sefydlu p'un a yw'r claf yn siaradwr Cymraeg, mae'n rhaid gwneud pob ymdrech i gyfathrebu â'r claf yn Gymraeg trwy gydol ei gyfnod fel claf mewnol.



# Staff yn cael eu cydnabod am eu cyfraniad i'r Gymraeg...

Mae tri aelod o staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi derbyn cydnabyddiaeth am eu hymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg ar Ddydd Gŵyl Dewi 2021 a byddant yn cael eu rhoi'n flynyddol i amlygu'r unigolion hynny sydd wedi gwneud newidiadau yn eu gwaith i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hymgorffori'n llawn.

Cyflwynwyd y gwobrau newydd, a noddwyd gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, gan Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a Swyddog y Gymraeg, Jessica Sharp, i gydnabod a dathlu staff sydd wedi gwneud cyfraniad gwych i ddatblygiad y Gymraeg yn eu hadrannau a meysydd gwasanaeth.



Cafodd Lorraine Coultis, Arweinydd Clinigol Theatrau Plant, Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, ei dewis ar gyfer y wobr am ei brwdfrydedd a'i hymdrech i sicrhau bod yr holl gleifion a staff yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fyddant mewn Theatrau Plant, drwy greu arddangosfeydd Cymraeg i gleifion edrych arnynt cyn eu llawdriniaeth.



Dr Hywel Roberts, Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Gofal Critigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, yw ail enillydd y gwobrau newydd hyn, am iddo sicrhau bod yr holl staff sy'n siarad Cymraeg, a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ar ei ward, yn gallu cael gafael ar sticeri a greodd yn ei amser ei hun i staff gael dangos i gleifion eu bod yn siarad Cymraeg, tra eu bod yn gwisgo PPE yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd Hywel hefyd yn ddigon caredig i rannu'r syniad hwn gydag Adran y Gymraeg i staff gael defnyddio'r sticeri ar wardiau eraill pe bai angen.

Trydydd enillydd eleni yw Lorena Garcia-Wright, Therapi Galwedigaethol, Ysbyty Athrofaol Llandocho, am weithio gyda chleifion hŷn sy'n siarad Cymraeg ar wardiau iechyd meddwl yr henoed, E12 yn enwedig, a chreu wal ryngweithiol iddynt ei defnyddio ochr yn ochr â staff, lle gallant roi'r diwrnod, y dyddiad, y tymor a phethau eraill yn ddyddiol i gadw eu meddwl yn effro, gan ymgorffori'r Gymraeg ar yr un pryd.



# Y Bwrdd Iechyd yn Cryfhau ei Ymrwymiad i'r Gymraeg trwy ESWLSG...

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi ymrwmo i fabwysiadu dull newydd, rhagweithiol o ymgorffori'r Gymraeg yn ei weithrediadau.

Mae Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg (ESWLSG) y Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo'r dull o weithredu sy'n ceisio meithrin a chyflymu'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg ledled y sefydliad.

Mae'r grŵp, wedi'i gadeirio gan Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, a'i gefnogi gan Aelodau Annibynnol y Bwrdd, yn hyrwyddo'r agendâu Cydraddoldeb a'r Gymraeg o fewn y sefydliad.

Mae datblygiadau diweddar wedi cynnwys gwerthuso adnoddau'r sefydliad a ddyrannwyd i weithredu'n ddwyieithog, a datblygu a threialu adnoddau newydd i wneud gwasanaethau ysbytai yn fwy hygyrch i gleifion sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg.

Mae'r grŵp hwn hefyd wedi cefnogi lansiad ymgyrch newydd y Bwrdd Iechyd, Meddwl Cymraeg - Think Welsh, sy'n annog gweithwyr ledled y bwrdd iechyd i ystyried sut i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn eu rolau, ac i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ar unrhyw lefel o ruglder.



# Penodi Tîm Cyfieithu Cymraeg Newydd...

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi penodi tîm newydd o ddau swyddog cyfieithu Cymraeg i helpu'r sefydliad i gyhoeddi gwybodaeth yn ddwyieithog.

Mae Anna a Nia wedi ymuno â'r sefydliad i gefnogi'r gwaith o gyfieithu dogfennau corfforaethol, polisïau, newyddion a chyhoeddiadau yn rhan o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd o'r newydd i feithrin diwylliant cwbl ddwyieithog o fewn y sefydliad.

Y tîm newydd yw adnodd mewnol pwrpasol cyntaf y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg, a fydd yn ategu'r gwasanaeth cyfieithu y mae'r sefydliad yn gallu ei ddefnyddio trwy Gyngor Caerdydd.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfieithu cynnwys ar gyfer eich gwasanaeth, ewch i dudalen y Gymraeg ar fewnwyd y staff.



Nia McLellan


Anna Powys

# Masgot y Gymraeg...

Yn rhan o ailfrandio a datblygu prosiectau Cymraeg ar draws y Bwrdd Iechyd, rydym hefyd wedi cyflwyno masgot newydd o'r enw Cadog, a fydd yn wyneb mwy a mwy cyfarwydd ledled ein hysbytai i helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Cyn dylunio'r masgot, cynhalïom gystadleuaeth fach gyda chleifion yn adran therapi chwarae Ysbyty Arch Noa i Blant a fu'n gyfrifol am ddewis lliw, dyluniad ac enw posibl yr un ar gyfer y ddraig. Er bod yr holl geisiadau ar gyfer ei enw yn wych, ysbrydolwyd yr enw Cadog, sy'n golygu brwydr, gan glaf ifanc a aeth i weld y murlun ar ei ffordd i gael llawdriniaeth.

Mae'r enw a ddewiswyd yn nodweddiadol o'r ysbryd brwydro a welir gan gleifion yn yr ysbyty plant bob dydd.






# Y gwaith o gyfieithu gwefan newydd y Bwrdd Iechyd yn mynd rhagddo...

Lansiodd BIP Caerdydd a'r Fro wefan gorfforaethol newydd ym mis Awst 2020, a oedd yn benllanw prosiect i symud cynnwys o system reoli cynnwys gwaddol y Bwrdd Iechyd i system newydd.

Fel rhan o'r prosiect, mae tua 2,000 o dudalennau o gynnwys Saesneg wedi symud i'r wefan, a phenodwyd asiantaeth cyfieithu gan y Bwrdd Iechyd i ymgymryd â'r gwaith o gyfieithu a chyhoeddi'r cynnwys yn Gymraeg.

Mae'r gwaith o gyfieithu'r wefan yn mynd rhagddo, ac mae'r asiantaeth a benodwyd i wneud y gwaith wedi cadarnhau ei bod yn disgwyl i tua hanner y cynnwys fod wedi'i gyfieithu erbyn diwedd Ebrill 2021.


Yn dilyn y gwaith cyfieithu cychwynnol, ac wrth i aelodau o staff ar draws y Bwrdd Iechyd gael eu cyflwyno'n raddol i ddiweddarau'r wefan, bydd gofyn i'r holl ddefnyddwyr sicrhau bod unrhyw ddiwed-dariadau i'r wefan yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, a bydd angen defnyddio tîm cyfieithu'r Bwrdd Iechyd a/neu ddarparwyr cyfieithu allanol i wneud hynny fel y bo'n briodol.



# Ffair Gyrfaoedd Rhithwir Cymraeg...

Gwirfoddolodd staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro eu hamser i recordio neges fer gyda'r nod o ysbrydoli disgyblion ysgol uwchradd sydd naill ai'n dechrau ar eu hastudi-aethau a'u gyrfaoedd neu sy'n ansicr o ran pa lwybr i'w ddilyn.

Daeth staff o amrywiaeth o gefndiroedd, grwpiau ethnig, addysg a rolau at ei gilydd (yn rhithwir) i annog oedolion ifanc i ystyried eu hopsiynau'n ofalus wrth ddewis proffesiwn ond hefyd i egluro beth sy'n wych am yrfa yn y GIG, boed mewn rôl glinigol, rôl gorfforaethol neu rôl iaith arbenigol hyd yn oed.



# Annog staff i ‘gamu ymlaen’ a gwella eu sgiliau Cymraeg...

Bydd staff Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yn datblygu eu sgiliau Cymraeg diolch i waith celf newydd sydd wedi'i osod wrth ymyl y grisiau ym mhencadlys y sefydliad yn Nhŷ Coetir.

Mae'r gwaith celf newydd, sy'n cynnwys tirnodau yng Nghymru a geiriau Cymraeg cyffredin, wedi cael ei ariannu drwy garedigrwydd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Fe'i gosodwyd fel rhan o'r ymgyrch Meddwl Cymraeg – Think Welsh a lansiwyd yn ddiweddar, sy'n annog gweithwyr y Bwrdd Iechyd i feddwl yn weithredol am y Gymraeg, ac ystyried sut y gallant gyfrannu at wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch i siaradwyr Cymraeg.

Mae'r ymgyrch yn rhan o ymdrechion ehangach i ddathlu treftadaeth y Bwrdd Iechyd fel prif sefydliad sector cyhoeddus ym mhrifddinas Cymru, a bwriad mentrau fel gosod y gwaith celf newydd yw gwella'r defnydd o'r Gymraeg.



Dywedodd Jessica Sharp, Swyddog y Gymraeg yn BIP Caerdydd a'r Fro: "Mae hwn yn gam enfawr ymlaen i ni yn BIP Caerdydd a'r Fro, o ran proffil y Gymraeg.

"Mae tua 65 y cant o'r boblogaeth yn ddysgwyr gweledol, ac felly, drwy osod y gwaith celf hwn mewn ardaloedd prysur, gobeithiwn y bydd staff yn dechrau sylwi arno a dysgu'r cyfarchion a'r ymadroddion syml hyn, i'w defnyddio gyda chydweithwyr a chleifion - man cychwyn holl bwysig wrth i ni geisio ymgorffori diwylliant cwbl ddwyieithog.

"Rydym yn ddiolchgar iawn i gael cefnogaeth y Tîm Gweithredol, ac Abi Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol yn arbennig, fel Hyrwyddwr dynodedig y Gymraeg ar gyfer y Bwrdd Iechyd, a chefnogaeth lawn y Timau Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau. Hoffwn hefyd ddiolch i Grosvenor Interiors am eu cefnogaeth a'u cymorth parhaus i gynhyrchu'r gwaith celf hwn."

# Poster i Arfer Da...



## Rydym yn cynnig nifer o drawsnewidiadau i'r ffordd rydym yn darparu gofal.

Nod y rhaglen Lluio ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol yw eich hysbysu am ein gweledigaeth ar gyfer gofal yn y dyfodol a chanfod yr hyn sy'n bwysig i chi. Bydd hyn yn dylanwadu ar ein cyfeiriad teithio.

### Ymhlith ein huchelgeisiau mae:

- Datblygu ein dau safle ysbyty acwt mawr, Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, fel canolfannau rhagoriaeth - y bydd gan y ddau rôl ddirffiniedig.
- Dod â gofal yn agosach at ein cymunedau, parhau i ddatblygu Canolfannau Iechyd a Lles a Hybiau Lles, yn ogystal â gwella ein model ar gyfer gofal yn y cartref.

Mae'n bwysig ein bod yn clywed eich adborth wrth i ni ddechrau datblygu ein cynlluniau.

Rhagor o wybodaeth a chyfle i ddwedu eich dweud...  
Ewch i: [www.shapingourfuturewellbeing.com](http://www.shapingourfuturewellbeing.com)  
E-bostiwch: [engage\\_cav@wales.nhs.uk](mailto:engage_cav@wales.nhs.uk)  
Ffoniwch: 029 218 36078

Chwiliwch am **#LluioEinCAF** ar y cyfryngau cymdeithasol



## Dyfodol Gwasanaethau Fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru

Mae Byrddau Iechyd ar draws y rhanbarth wedi dod at ei gilydd i gynnig model newydd o ofal ar gyfer darparu gwasanaethau fasgwlaidd. Byddai'r strwythur newydd yn cynnig ystod o fuddion i'n poblogaeth ac yn gwneud y gwasanaeth yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan hanfodol o'n seilwaith gofal iechyd yn Ne-ddwyrain Cymru.



### Hoffem glywed gennych...

Mae'n bwysig ein bod yn clywed eich meddyliau a'ch salbwmiau wrth i ni ddechrau datblygu ein cynlluniau. Ewch i'n tudalen we neu cyysylltwch â ni, er mwyn i ni allu dweud mwy wrthyfch am y cynlluniau arfaethedig a'ch gwahodd i gwblhau ein ffurflen adborth fyr.

Ewch i'n gwefan:  
[www.bipcaf.gig.cymru/FasgwlaiddDDdCymru](http://www.bipcaf.gig.cymru/FasgwlaiddDDdCymru)  
Anfonwch e-bost atom:  
[sewales.vascular@wales.nhs.uk](mailto:sewales.vascular@wales.nhs.uk)  
Ffoniwch ni: 02921 836068


Chwiliwch am  
**#FasgwlaiddDDdCymru** ar y cyfryngau cymdeithasol



**Meddwl  
Think**



**Cymraeg  
Welsh**



“The Welsh language is among the world’s fastest growing languages, and as an organisation operating at the heart of the nation’s capital it’s important that the Health Board does all it can to embrace and celebrate it.

“Through adopting this new proactive approach, alongside the recent launch of our Meddwl Cymraeg – Think Welsh campaign, we can really push the Welsh language forward here at Cardiff and Vale UHB, towards becoming a truly bilingual organisation.”



## A message from...

Welcome to Cardiff and Vale University Health Board's first Welsh Language Yearbook, which focuses on the activity that we have undertaken over the past year to drive forward the Welsh language within our organisation.

We are proud to be one of the largest organisations operating in the heart of the nation's capital and its surrounding areas. It puts on us a responsibility to celebrate and elevate the nation's heritage and culture and its language.

We have made great progress in the face of significant operational challenges in the past 12 months. Despite the pressures of the COVID-19 pandemic, we have upped our game to foster a truly bilingual culture across our organisation and made strong progress in working to meeting our duties under the Welsh Language Standards. Key to this has the various activities we have undertaken as part of the new Meddwl Cymraeg – Think Welsh campaign that we launched on Welsh Language Rights Day in December, which encourages members of staff to put the Welsh language at the forefront of their minds in delivering services.

There remain a number of challenges and hurdles that we need to address and overcome, which driven by our Equality Strategy and Welsh Language Standards Group and with a focus on the real impact that we know being able to access our services in Welsh can have for our patients, we are confident and determined to achieve.



**Len Richards**  
Chief Executive



**Charles Janczewski**  
Chair

# Health board staff encouraged to 'Meddwl Cymraeg' - Think Welsh...

Cardiff and Vale University Health Board has launched a new campaign to encourage use of the Welsh language and promote Welsh culture and heritage.

The Meddwl Cymraeg - Think Welsh campaign will encourage Health Board employees to actively think about the Welsh language, and consider how they can contribute to making services more accessible to Welsh speakers.

Launching on Diwrnod Hawliau, Welsh Language Rights Day, the campaign recognises people's right to use the Welsh language, and sets out to make doing so easier for the Health Board's patients and staff.

As part of the campaign, a range of information, resources and activities will be made available to staff in the coming months to encourage staff to have the confidence to speak Welsh at any level of fluency, support non-Welsh speaking staff to improve their skills, and help services to increase their use of the language.

**Meddwl  
Think** **Cymraeg  
Welsh**



Deputy Chief Executive, said: "As one of the major organisations in and around Wales' capital, the Health Board has a responsibility to celebrate and push forward the nation's heritage and culture, which includes using the Welsh language.

"Through implementing the Meddwl Cymraeg – Think Welsh campaign, we're encouraging staff to continually think of the Welsh language and consider ways they can incorporate it into their roles in support of our Welsh speaking patients and colleagues.

"We've seen how using even the simplest phrases in Welsh can have a significant impact on patient care, so I would encourage all staff with even the most basic Welsh language skills to have the confidence to use them.

"With everybody's full support of this campaign, I'm confident that we can really build momentum towards achieving our ambition of becoming a fully bilingual organisation, so that people can access any of our services using Welsh."

# New Space Ward Mural is Out of This World...

A new bilingual mural has been installed on Space Ward at the Noah's Ark Children's Hospital for Wales to help encourage Welsh speaking patients feel comfortable using their chosen language on the ward. Supported by Cardiff & Vale Health Charity Arts for Health and Wellbeing, the space-themed mural has launched on St David's day.

The mural, which was designed using ideas from patients and staff from Space Ward, features Welsh phrases and images of popular Welsh landmarks such as Snowdonia, Castell Coch and the Principality Stadium, to encourage young patients, their families and Health Board staff to be proud of our heritage and to access the Health Board's services through the medium of Welsh. As part of the mural, the Health Board has also introduced a new mascot named Cadog, which will become an increasingly familiar face throughout the Health Board to help promote the Welsh Language.



Jessica Sharp, Welsh Language Officer at Cardiff and Vale UHB said: "It's important that our Welsh speaking patients of all ages can feel comfortable accessing our services through the medium of Welsh if it is their chosen language, so I am very pleased with the installation of this new mural."

"I'd like to thank the Cardiff & Vale Health Charity for making this project possible, and patients and staff at the children's hospital for bringing Cadog's journey through space to life with their brilliant ideas."



The mural is one small step as part of the Health Board's mission to become a fully bilingual organisation. It forms part of the Meddwl Cymraeg - Think Welsh campaign, which encourages Health Board employees to put the Welsh Language at the forefront of their thinking, and consider how they can contribute to making services more accessible to Welsh speakers.

The design and installation of the new mural was supplied by Grosvenor Interiors and was supported by Cardiff & Vale Health Charity.



**Meddwl Cymraeg**  
**Think Welsh**




# Admissions Pack for Welsh Speaking Patients...

A Pilot Admissions Pack for Welsh Speaking Patients has been implemented within Mental Health, Paediatrics and ICU wards with the intention of rolling out to all wards across the Health Board after a six week consultation period.

The pack aims to assist staff in establishing whether an in-patient wishes to use the Welsh language during their admission.

All patients should be asked their preferred language on the first day of their in-patient admission. If a patient is unable to communicate for any reason, and it is suspected that the patient could be a Welsh speaker, there is a procedure to follow to ensure their care is provided through the medium of Welsh, which is assisted by LanguageLine and members of Welsh speaking staff within the departments.

On establishing that the patient is a Welsh speaker, every effort must be made to communicate with the patient in Welsh throughout their in-patient stay.



# Staff Recognised for Contribution to Welsh Language...



Lorraine Coultis, Children's Theatres Clinical Leader, Noah's Ark Children's Hospital, was chosen for the award for her enthusiasm and drive to ensure all patients and staff are able to access the Welsh Language while in Children's Theatres by creating Welsh Language displays for patients. <https://elis-dafydd-sharp-portfolio.squarespace.com/>

Three members of Cardiff and Vale University Health Board staff have received recognition for their efforts to promote the Welsh language on St David's Day 2021 and will be given annually to highlight those individuals who have made changes in their working practice to ensure that the Welsh language is fully embraced.

Then new awards, Sponsored by Cardiff & Vale Health Charity, were presented by Rachel Gidman, Interim Executive Director of Workforce and Welsh Language Officer, Jessica Sharp, to recognise and celebrate staff who have made a great contribution to the development of the Welsh language in their departments and service areas.



The second inaugural award winner is Dr Hywel Roberts, Consultant in Critical Care Medicine, University Hospital of Wales, for ensuring all Welsh speaking and non-Welsh speaking staff on his ward had access to stickers he created in his own time for staff to identify themselves to patients as Welsh speaking, while wearing PPE during the COVID-19 pandemic. Hywel also kindly offered to share this idea with the Welsh Language Department for staff to use on other wards if needed.

This year's third winner is Lorena Garcia-Wright, within Occupational therapy, UHL, for working with elderly Welsh speaking patients on older people's mental health wards, E12 in particular, and creating a wall for them to interact with alongside staff where they place the day, date, season, among other things on a daily basis to keep their minds active, which incorporated the Welsh Language.



# Health Board Strengthens Commitment to Welsh Language through ESWLSG...

Cardiff and Vale University Health Board has committed to taking a new, proactive approach to embedding the Welsh language into its operations.

The Health Board's Equality Strategy and Welsh Language Standards Group (ESWLSG) has endorsed the approach that aims to nurture and accelerate the growing use of the Welsh language throughout the organisation.

Chaired by interim Executive Director of Workforce and supported by Independent Members of the Board, the group champions the Equalities and Welsh language agendas within the organisation.

Recent developments have included evaluating the organisation's resource allocated to operating bilingually, and developing and piloting new resources to make hospital services more accessible to patients whose chosen language is Welsh.

The group has also supported the launch of the Health Board's new Meddwl Cymraeg - Think Welsh campaign that encourages employees throughout the health board to actively consider how they can integrate the Welsh language into their roles, and to use their Welsh language skills at any level of fluency.



# Welsh Language Translators...

Cardiff and Vale University Health Board has appointed a new team of two Welsh language translation officers to help the organisation publish information bilingually.

Anna and Nia have joined the organisation to support the translation of corporate documents, policies and news and announcements, as part of the Health Board's renewed commitment to achieving a truly bilingual organisation culture.

The new team is the Health Board's first dedicated in-house resource for Welsh language translation, which will complement the translation service that the organisation is able to access through Cardiff Council.

To find out more about translating content for your service, visit the Welsh language page on the staff intranet.



Nia McLellan

Anna Powys

# Welsh Language Mascot...

As part of the rebranding and development of Welsh Language projects across the the Health Board, we have also introduced a new mascot named Cadog, which will become an increasingly familiar face throughout the our hospital's to help promote the use of the Welsh Language.

Prior to the mascot being designed, we held a small competition with patients in the Play therapy department of Noah's Ark Childrens Hospital who each chose a colour scheme, design and a potential name for the dragon. Although all entries for its name were fantastic, Cadog's name, which means battle, was inspired by a young patient who visited the mural after it was installed on his way into surgery.

The name chosen typifies the fighting spirit seen by patients at the children's hospital every single day.





# New Health Board website translation underway...

Cardiff and Vale UHB launched a new corporate website in August 2020, which was the culmination of a project to migrate content from the Health Board's legacy content management system into a new system.

The project has seen approximately 2,000 webpages of English language content migrated into the website, and the Health Board has appointed a Welsh language translation agency to undertake translation and publication of this content in Welsh.

Translation of the website is underway, and the agency that has been appointed to undertake this work has confirmed that it expects approximately half of the content to have been translated by the end of April 2021.


Following this initial translation, and as members of staff across the Health Board are increasingly introduced to update the website, all users will be directed to ensure that any updates to the website are made bilingually, which they will need to resource via the Health Board's translation team and/or external translation providers as appropriate.



# Virtual Welsh Careers Fair...

Cardiff and Vale University Health Board staff volunteered their time to record a short message aiming to inspire secondary school pupils that are either commencing their studies and careers or are unsure of which path to follow.

Staff from varied backgrounds, ethnicities, education and roles came together (virtually) to encourage young adults to carefully consider their choices when choosing a profession but also to explain all that is great about a career in the NHS, be that in a clinical role, a corporate role or even a specialist language role.



# Staff to 'Step up' their Welsh Language Skills...

Cardiff and Vale University Health Board (UHB) staff will be stepping up their Welsh language skills thanks to new artwork which has been installed on the stairwells at the organisation's Woodland House headquarters.

The new artwork, which features Welsh landmarks and common Welsh words was kindly funded by Cardiff & Vale Health Charity.

It has been installed as part of the recently-launched Meddwl Cymraeg - Think Welsh campaign, which encourages Health Board employees to actively think about the Welsh language, and consider how they can contribute to making services more accessible to Welsh speakers.

The campaign is part of wider efforts to celebrate the Health Board's heritage as a major public sector organisation in the Welsh capital, with initiatives such as the installation of the new artwork designed to further the use of the Welsh language.



Jessica Sharp, Welsh Language Officer at Cardiff and Vale UHB said: "This is a big step forward for us within Cardiff and Vale UHB with regards to the profile of the Welsh language.

"Approximately 65 per cent of the population are visual learners, and so, by placing these art works in busy circulation areas we hope that staff will begin to notice and learn these simple greetings and phrases to use with colleagues and patients – an important starting point as we look to embed a truly bilingual culture.

"We are very grateful to have the support of the Executive Team, Abi Harris, Executive Director of Strategic Planning in particular, as our designated Board Welsh Language Champion, and with the full support from the Capital, Estates and Facilities Teams. I'd also like to thank Grosvenor Interiors for their continued support and help in producing the artwork."



# Good Practice Posters...



## Rydym yn cynnig nifer o drawsnewidiadau i'r ffordd rydym yn darparu gofal.

Nod y rhaglen Llundain ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol yw eich hysbysu am ein gweledigaeth ar gyfer gofal yn y dyfodol a chanfod yr hyn sy'n bwysig i chi. Bydd hyn yn dylanwadu ar ein cyfeiriad teithio.

### Ymhlith ein uchelgeisiau mae:

- Datblygu ein dau safle ysbyty acwt mawr, Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, fel canolfannau rhagoriaeth - y bydd gan y ddau rôl ddiifniedig.
- Dod â gofal yn agosach at ein cymunedau, parhau i ddatblygu Canolfannau Iechyd a Lles a Hybiau Lles, yn ogystal â gwella ein model ar gyfer gofal yn y cartref.

Mae'n bwysig ein bod yn dlywed eich adborth wrth i ni ddechrau datblygu ein cynlluniau.

Rhagor o wybodaeth a chyfle i ddweud eich dweud...

Ewch i: [www.shapingourfuturewellbeing.com](http://www.shapingourfuturewellbeing.com)

E-bostwch: [engage\\_cav@wales.nhs.uk](mailto:engage_cav@wales.nhs.uk)

Ffoniwch: 029 218 36078

Chwiliwch am **#LlundainEinCAF**

ar y cyfryngau cymdeithasol



## Dyfodol Gwasanaethau Fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru

Mae Byrddau Iechyd ar draws y rhanbarth wedi dod at ei gilydd i gynnal model newydd o ofal ar gyfer darparu gwasanaethau fasgwlaidd. Byddai'r strwythur newydd yn cynnig ystod o fuddion i'n poblogaeth ac yn gwneud y gwasanaeth yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan hanfodol o'n seilwaith gofal iechyd yn Ne-ddwyrain Cymru.



### Hoffem glywed gennych...

Mae'n bwysig ein bod yn dlywed eich meddyliau a'ch safbwyntiau wrth i ni ddechrau datblygu ein cynlluniau. Ewch i'n tudalen we neu cysylltwch â ni, er mwyn i ni allu dweud mwy wrthydd am y cynlluniau arfaethedig a'ch gwahoddi i gwblhau ein ffurflen adborth fyrr.

Ewch i'n gwefan:  
[www.bipcaf.gig.cymru/  
FasgwlaiddDDdCymru](http://www.bipcaf.gig.cymru/FasgwlaiddDDdCymru)

Anfonwch e-bost atom:  
[sewales.vascular@wales.nhs.uk](mailto:sewales.vascular@wales.nhs.uk)

Ffoniwch ni: 02921 836068

Chwiliwch am  
**#FasgwlaiddDDdCymru**  
ar y cyfryngau cymdeithasol





**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board

**Meddwl Cymraeg**  
**Think Welsh**